

Amgueddfa Cymru



Paratoi ar gyfer Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang

Gallwn ddysgu llawer am gaethwasiaeth ac anghydraddoldeb heddiw drwy astudio hanes Cymru yn ogystal ag enghreifftiau o'r byd modern.

Astudiwch y ffynonellau hyn ynglŷn â chaethwasiaeth ac anghydraddoldeb yn yr Ymerodraeth Rufeinig (gan gynnwys Cymru) a chaethwasiaeth yng Ngwlad Thai heddiw. Bydd y ffynonellau'n eich helpu i ddeall y gwahanol fathau o gaethwasiaeth, pam mae caethwasiaeth yn bodoli a'r effaith ar y rhai sy'n rhan ohono.

Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Gallwch wneud rhagor o waith ymchwil ar-lein ar wefan Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth Prydain (Saesneg yn unig) a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref gyda chymorth yr NSPCC.

Cyfieithiadau i'r Gymraeg, yn hytrach na'r gwreiddiol, yw nifer o'r ffynonellau hyn.

PWNC: ANGHYDRADDOLDEB
FFOCWS: CAETHWASIAETH

FFYNHONNELL 1: Darnau o adroddiad ar yr anghydraddoldeb rhwng caethweision a meistri yng nghyfnod y Rhufeiniaid gan Amgueddfa Cymru (2015)

Caethwasiaeth yng nghyfnod y Rhufeiniaid

Chwaraeodd caethwasiaeth ran bwysig iawn yn y gymdeithas Rufeinig. Roedd caethweision yn gwneud nifer o dasgau yn amrywio o waith llafur i broffesiynau medrus. O dan y gyfraith Rufeinig, ystyrid bod caethweision yn eiddo i'w meistri ac y gellid eu prynu a'u gwerthu. Gwnaed hyn yn aml mewn arwerthiannau, lle y byddai sgiliau a chryfderau caethwas yn cael eu rhestru. Byddai rhai caethweision yn cael eu prynu am bris sy'n cyfateb i filoedd o ddoleri heddiw.

Wrth i'r Ymerodraeth Rufeinig dyfu, roedd angen gweithwyr i'w chynnal, er enghraifft drwy weithio yn y mwyngloddiau. Wrth i ardaloedd gael eu goresgyn, roedd y bobl yn aml yn cael eu dal a'u gwerthu i fasnachwyr caethweision. Roedd caethwasiaeth mor gyffredin fel yr amcangyfrifir bod 30-40% o boblogaeth yr Eidal yn y ganrif 1af CC yn gaethweision. Drwy gydol cyfnod yr Ymerodraeth Rufeinig, amcangyfrifwyd bod hyd at 5 miliwn o bobl yn gaethweision, tua 15% o'r boblogaeth gyfan. Nid oedd caethwasiaeth Rufeinig yn seiliedig ar hil; gallai caethweision ddod o bob rhan o Ewrop a'r byd ehangach.

Y mathau o gaethweision

Roedd nifer o wahanol fathau o gaethweision yn yr Ymerodraeth Rufeinig, yn gweithio mewn amrywiaeth eang o swyddi. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Caethweision mewn cartrefi: unigolion oedd yn berchen ar y caethweision hyn ac roeddent yn gweithio mewn cartrefi preifat. Roedd y swyddi'n cynnwys bod yn gogydd, bwtler, morwyn a mwy. Mewn tŷ mawr byddai nifer o gaethweision yn gwneud nifer o swyddi gwahanol. Gallai'r safonau byw, er nad oeddent mor ysblennydd â rhai'r teulu yr oeddent yn gweithio iddynt, fod yn well na safonau rhai pobl rydd weithiau.
- Caethweision yn y gweithle: roedd y rhain mewn dinasoedd ac yn y wlad. Mewn ardaloedd dinesig, roedd pobyddion, gwneuthurwyr esgidiau a nifer o bobl eraill yn gaethweision. Mewn mannau gwledig, roedd y rhan fwyaf o weithwyr fferm yn gaethweision.
- Mwyngloddio: roedd degau o filoedd o gaethweision yn gweithio mewn mwyngloddiau, lle'r oedd yr amodau'n aml yn

FFYNHONNELL 1

ofnadwy. Troseddwy'r oedd y caethweision hyn yn aml iawn a anfonwyd i weithio i'r mwyngloddiau fel cosb. Byddent yn aml yn gweithio yn y mwyngloddiau nes iddynt farw, heb unrhyw siawns o gael eu rhyddhau.

- Gladiatoriaid: roedd tua hanner gladiatoriaid yn gaethweision. Gallai gladiatoriaid llwyddiannus gael eu gwobrwyo gyda'u rhyddid; fodd bynnag, roedd bod yn gladiator yn amlwg yn beryglus iawn.

Hawliau caethweision

Ystyrid bod caethweision yn eiddo o dan y gyfraith Rufeinig, ac felly nid oedd ganddynt hawliau personol. Gallai perchnogion diegwyddor drin caethweision yn wael, ac roedd rhai caethweision yn byw mewn amodau gwael. Gallai caethweision fod yn berchen ar eiddo, ond byddai'n cael ei gadw yn enw eu perchnogion. Wrth i'r Ymerodraeth dyfu cafodd caethweision eu trin yn well a chynigwyd rhywfaint o ddiogelwch cyfreithiol i gaethweision. Hefyd, roedd hawl gan gaethweision â sgiliau i ennill ychydig o arian o'u crefftau, y gallent ei wario at eu defnydd personol.

Rhyddid

Gallai'r mwyafrif o gaethweision, ymhen amser, ennill neu brynu eu rhyddid. Roedd rhyddid yn aml yn cael ei ennill o ganlyniad i weithred dda a wnaed ar gyfer perchnog neu drwy ennill ei barch. Roedd caethwas rhydd yn dod yn ddinesydd Rhufeinig cyflawn, ac yn cael yr holl fanteision a oedd yn gysylltiedig â hyn. Yn wir, daeth rhai caethweision yn gyfoethog a phwerus. Roedd hawl gan gaethweision gwrywaidd rhydd i bleidleisio. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt hawl i ddal swydd. Roedd rhai caethweision, fel y rhai a oedd yn gweithio yn y mwyngloddiau fel cosb, yn gweithio gan wybod na fyddent fyth yn rhydd.

FFYNHONNELL 2: Roedd mosaigau'n cael eu gwneud i addurno tai neu flâu Rhufeinwyr cyfoethog. Isod ceir mosäig Rhufeinig yn Ostia Antica. Eu pwrpas oedd i glodfori eu cyfoeth, eu gweision a'u duwiau.



GETTY IMAGES
MOMENT OPEN DANIELA WHITE IMAGES

FFYNHONNELL 3: Yr awdur Rhufeinig Apuleius yn disgrifio grŵp o gaethweision yn ei nofel *The Golden Ass* tua 165 OC

Roedd nifer fawr o linellau ar hyd eu croen yn dangos marciau hen fflangelliadau, a gallech eu gweld drwy'r tyllau yn eu crysau rhwygiedig a oedd yn cysgodi yn hytrach na gorchuddio eu cefnau creithiog; ond roedd rhai yn gwisgo dim ond lliain lwynau. Roedd llythrennau wedi'u marcio ar eu talcenni, ac roedd hanner eu pennau wedi'u heillio a chloeon ar eu coesau.

FFYNHONNELL 4: Darnau o'r ddrama *Pseudolus* gan y dramodydd comedi Rhufeinig Paulus tua 201CC

Mae Ballio, perchennog caethweision, yn rhoi gorchmynion i'w weision.

Ballio: Ewch allan, dewch, allan â chi, y cnafon; wedi'ch cadw am golled, ac wedi'ch prynu am golled. Nid oes yr un ohonoch yn meddwl meindio eich busnes, na bod o ddefnydd i mi, os nad ydw i'n ymateb fel hyn! (*Mae Ballio yn taro'r holl gaethweision gyda'i chwip*)

Ni welais ddynion sy'n fwy fel asynnod na chi! Yn wir, mae eich asennau wedi'u caledu oherwydd y streipiau. Os bydd rhywun yn eich fflangellu, mae'n anafu ei hun fwyaf.

(*Mae Ballio yn siarad ag ef ei hun.*) Maen nhw i gyd yn cael eu chwipio'n rheolaidd, a'r oll a wnânt yw dwyn, lladrata, ysbeilio, yfed, bwyta a dianc! O! Maen nhw'n edrych yn ddigon parchus; ond maent i gyd yn ymddwyn fel twyllwyr

(*Mae Ballio yn siarad â'r caethweision unwaith eto*) Ddoe, rhoddais ei waith arbennig i bob un ohonoch chi, ond rydych chi mor ddiwerth, esgeulus, a phengaled, nes bod yn rhaid i mi eich atgoffa chi drwy eich curo'n dda. Felly mi dybiaf eich bod yn credu y gallech gael y gorau ar y chwip hon ac arna i - oherwydd eich crwyn cryfion. Ond ni fydd eich crwyn chi yn galetach na'm chwip dda i. Edrychwch ar hyn os gwelwch yn dda! Talwch sylw! (*Yna mae Ballio yn fflangellu*

un o'r caethweision) Wel? Ydi e'n boenus? Nawr sefwch yma, bawb ohonoch. Rydych yn hil sydd wedi'i geni i gael ei churo! Trowch eich clustiau i'r cyfeiriad hwn! Talwch sylw i'r hyn a ddywedaf. Ti, was! Ti sydd â'r ystên, cer i nôl y dŵr. Cymer ofal oherwydd mae'r tegell yn llawn. Ti sydd â'r fwyell, ti fydd yn gyfrifol am dorri'r coed.

Caethwas: Ond nid oes min ar y fwyell hon.

Ballio: Wel; felly y mae! Ac rwy'ti wedi dy orchuddio â streipiau, ond a yw hynny'n rheswm pam na ddylet weithio i mi? Rwy'n dy orchymyn i lanhau'r tŷ. Rwy'ti'n gwybod beth i'w wneud; brysia i'r tŷ. (*Mae'r caethwas yn dilyn y gorchymyn ac yn gadael*). Nawr chi (*mae Ballio yn siarad â chaethwas arall*), tacluswch y gwelyau. Golchwch y plât a'i gadw. Gwnewch yn siŵr, pan fyddaf yn dychwelyd o'r Fforwm, fod pethau wedi'i gwneud - bob dim wedi'i frwsio, ei ddyfrio, ei dacluso, ei lanhau a'i gadw. Mae'n ben-blwydd arna i heddiw. Dylech oll afael ynddi a'i ddathlu. Gwnewch yn siŵr - ydych chi'n fy nghlywed i - eich bod yn gosod y cig moch hallt, y baeddgig, y gwddw torchog a'r pwrs yn y dŵr. Rwyf am ddiddanu gwŷr bonheddig rhagorol mewn gwir steil, i roi'r argraff fy mod i'n gyfoethog. Ewch i'r tŷ, a pharatowch y pethau hyn, fel nad oes oedi pan ddaw'r cogydd. Rwy'n mynd i'r farchnad i brynu pa bynnag bysgod sydd ar gael.

(Cyfieithiad o fersiwn a droswyd i'r Saesneg gan William Stearns Davis, gol., *Readings in Ancient History: Illustrative Extracts from the Sources*, 2 Vols. (Boston: Allyn and Bacon, 1912-13))

FFYNHONNELL 5: Cyngor ar ofalu am gaethweision ac ymdrin â nhw a gofnodwyd gan Cato'r Hynaf, tua 170 CC. Roedd Cato'r Hynaf yn hanesydd ac yn wleidydd Rhufeinig pwysig

Dylai caethweision gwledig gael pedwar modii o rawn yn y gaeaf, pan fyddant yn gweithio; a phedwar modii a hanner yn yr haf. Bydd yr arolygwr, meistres y tŷ, y gwarchodwr a'r bugail yn cael tri modii; bydd caethweision mewn cadwyni'n cael pedwar pwys o fara yn y gaeaf a phum pwys pan ddylai'r gwaith o dacluso'r gwinwydd ddechrau nes bod y ffigys wedi aeddfedu.

...O ran dillad, rhowch diwnig tair a hanner troedfedd o hyd, a chlogyn unwaith bob dwy flynedd. Pan fyddwch yn rhoi tiwnig neu glogyn, cymerwch yr hen rai, i'w gwneud yn gasogau. Unwaith bob dwy flynedd, dylid rhoi esgidiau da iddynt.

FFYNHONNELL 6: Cyngor ar ofalu am gaethweision ac ymdrin â nhw gan Seneca yr Ieuengaf mewn llythyr a ysgrifennwyd tua 65 OC. Roedd Seneca yn Rhufeiniwr pwysig a fu unwaith yn gynghorydd i'r Ymerawdwr

Cofiwch fod y sawl yr ydych yn ei alw'n gaethwas wedi dod o'r un llinach, wedi byw o dan yr un awyr, ac, fel chi, mae'n anadlu, yn byw ac yn marw. Mae'r un mor bosibl i chi ei weld fel dyn rhydd ag ydyw iddo ef eich gweld chi fel caethwas.

Nid wyf yn dymuno trafod cwestiwn rhy fawr, a thrafod sut y caiff caethweision eu trin. Rydym ni fel Rhufeinwyr yn eu trin mewn modd rhy drahaus, creulon a sarhaus. Ond dyma gnewyllyn fy nghyngor: Dylech drin y rhai sy'n is na chi fel yr hoffech gael eich trin gan eich gwell.

Dylech drin eich caethwas mewn ffordd garedig, a chyfeillgar hyd yn oed; gadewch iddo siarad â chi, cynllunio gyda chi, a byw gyda chi. Rwy'n gwybod, ar y pwynt hwn, y bydd yr holl bobl brydferth yn dadlau fel un yn fy erbyn; byddant yn dweud: "Nid oes dim sy'n fwy diraddiol, yn fwy gwarthus, na hyn." Oni welwch...sut y gwnaeth ein cyndadau gael gwared ar bopeth ...sarhaus wrth drin caethweision? Roeddent yn galw'r meistyr yn "dad y tŷ", a'r caethweision yn "aelodau o'r tŷ", arfer sy'n bodoli o hyd.

Sefydlwyd gwyliau pan oedd y meistri a'r caethweision yn cyd-fwyta - nid fel yr unig ddydd ar gyfer yr arfer hwn, ond fel rhywbeth gorfodol ar y diwrnod hwnnw beth bynnag. Roeddent yn caniatáu i'r caethweision ennill anrhydeddau yn y cartref ac i fynegi eu barn.

FFYNHONNELL 7: Cadwyn ar gyfer criw o gaethweision a ganfuwyd yn Llyn Cerrig Bach ar Ynys Môn, Cymru

Roedd y gadwyn haearn hon yn un o bâr a ganfuwyd yn Llyn Cerrig Bach ar Ynys Môn. Mae'n cynnwys pum set o hualau gwddw, wedi'u cysylltu â'i gilydd gan gyfres o linciau siâp 'ffigur wyth'.

Mae'n bosibl bod y gadwyn hon ar gyfer criw o gaethweision wedi'i defnyddio yn ystod cyfnod concwest y Rhufeiniaid (100 CC–OC 78). Mae'r awdur clasurol Strabo yn dweud wrthym fod caethweision yn cael eu hallforio o Brydain i'r byd Rhufeinig yn ystod y ganrif gyntaf CC.



FFYNHONNELL 8: Darnau a lluniau o hanes gladiatoriaid ar wefan *BBC History*, wedi'i ysgrifennu gan yr Athro Kathleen Coleman (2011)

Heddiw, mae'r syniad o gladiatoriaid yn ymladd hyd farwolaeth, ac o amffitheatr lle y gallai hyn ddigwydd gyda chynulleidfa yn ei wyllo, yn cyfleu pa mor isel y gallai'r Ymddiriedolaeth Rufeinig lithro. Fodd bynnag, i'r Rhufeiniaid, roedd sefydliad yr arena yn un o nodweddion diffiniol eu gwarediad.

Ni wnaeth bron unrhyw leisiau cyfoes gwestiynu moesoldeb cynnal gornestau. Ac mae beddargraffiadau'r gladiatoriaid eu hunain yn cyfeirio at eu proffesiwn heb gywilydd, ymddiheuriad, na chwerwder. Felly, pwy oedd y gladiatoriaid hyn, a beth oedd eu rôl yn y gymdeithas Rufeinig?

Roedd y rhan fwyaf o'r gladiatoriaid yn gaethweision.

Roeddent yn gorfod cael eu hyfforddi'n drwyadl, roeddent yn cael bwyta diet oedd yn cynnwys llawer o ynni, a rhoddwyd sylw meddygol arbenigol iddynt. O'r herwydd, roeddent yn fuddsoddiad drud, ac nid oedd marwolaeth un ohonynt yn fater i'w gymryd yn ysgafn.



Darnau o waith
clai Rhufeinig

FFYNHONNELL 9: Disgrifiad o wrthryfel caethweision (73-71 CC) o dan arweiniad Spartacus, yn seiliedig ar gofnod gan yr haneswyr Groegaidd Appian a Plutarch

Roedd y caethwas Spartacus yn gladiator yn yr ysgol hyfforddi gladiatoriaid yn Capua ac yn paratoi i ymladd yn yr amffitheatr er mwyn diddanu'r gwylwyr. Yn 73 CC, arweiniodd Spartacus tua 70 o gyd-gladiatoriaid mewn ymgais i dorri'n rhydd. Llwyddodd i orchfygu'r ceidwaid a, chan arfogi eu hunain â phastynau a dagerau a gymerwyd oddi wrth bobl ar y ffyrdd, torrodd y gladiatoriaid yn rhydd a ffoi i Fynydd Vesuvius.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, ymunodd miloedd o gaethweision ar ffo a rhai dynion rhydd â Spartacus a'i fyddin o gaethweision. I ddechrau, nid oedd y Rhufeiniad yn cymryd Spartacus o ddifrif, ond newidiodd hyn wrth i'r fyddin o gaethweision gynyddu i dros 70,000 o bobl. Yna, anfonodd y Rhufeiniaid nifer o gadfridogion pwysig a byddinoedd i ymladd yn erbyn Spartacus, ond gorchfygwyd pob un ohonynt.


Ar ôl tair blynedd o wrthryfela, anfonodd y Rhufeiniaid eu chwe lleng gorau, o dan arweiniad Licinius Crassus, i ymladd yn erbyn Spartacus. Penderfynodd Spartacus encilio i borthladd Brundisium; o'r fan hon, gallai'r fyddin o gaethweision a'u

teuluoedd hwylio i ddiogelwch yn Sisili. Pan fethodd grŵp o forladron â darparu'r llongau yr oedd eu hangen arnynt yn ôl eu haddewid, nid oedd gan Spartacus ddewis ond ymladd y fyddin Rufeinig anferth o dan arweiniad Crassus, a gafodd gefnogaeth gan fyddin arall o dan arweiniad Pompey. Yn wyneb yr anfantais hon, ymladdodd y caethweision frwydr hir, waedlyd a dewr. Anafwyd Spartacus, ond parhaodd i ymladd nes ei fod ef a nifer fawr o'r rhai o'i amgylch wedi'u lladd. I ddysgu gwers i bob caethwas yn yr Ymerodraeth Rufeinig, daliodd Crassus tua 6,000 o'r fyddin o gaethweision gwrthryfelgar a'u croeshoelio ar hyd y ffordd rhwng Capua a Rhufain. Ni chanfuwyd corff Spartacus fyth, sy'n awgrymu ei fod wedi dianc o bosibl.

CAETHWASIAETH AC ANGHYDRADDOLDEB YNG NGWLAD THAI FODERN

FFYNHONNELL 1: Arolwg gan sefydliad polau piniwn Gallup o ddosbarthiad caethwasiaeth fodern fesul gwlad (2014)

Mae canlyniadau'r arolwg isod yn seiliedig ar gyfweiliadau wyneb yn wyneb ag 8,061 o oedolion, 15 oed a hŷn, a gynhaliwyd ym mis Mai a mis Mehefin 2014 ym Mrasil, Ethiopia, Indonesia, Nepal, Nigeria, Pacistan a Rwsia. Mae Gallup yn amcangyfrif bod 5.4 miliwn o bobl yn gaethweision heddiw mewn saith gwlad risg uchel, a bod cyfanswm o 35.8 miliwn o bobl yn gaethweision ledled y byd.



FFYNHONNELL 2: Darn o adroddiad yn *The Huffington Post*, 13 Ebrill 2015

Galw am fwyd môr rhad yn ysgogi caethwasiaeth yn y byd modern

Gallai fod yn anodd ei stumogi, ond mae'n bosibl bod eich brechdan diwna, eich sushi, a'ch bwyd cath hyd yn oed yn uniongyrchol gysylltiedig â chaethwasiaeth yn y byd modern ochr arall y byd - ac nid oes llawer y gallwch ei wneud am y sefyllfa. Nid yn unig mae gorbysgota anghyfreithlon a reolir gan forladron ym moroedd Deddwyrain Asia yn difrodi'r amgylchedd am byth, ond mae hefyd yn denu miloedd o weithwyr anghenus a naif o leoedd fel Burma, Gwlad Thai ac Indonesia i gaethiwed y mae'n anodd dianc oddi wrtho.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Associated Press adroddiad syfrdanol ar gaethwasiaeth yn y diwydiant pysgota yn Asia, gan ganolbwyntio ar Benjina, ynys fechan yn Indonesia, tua 400 milltir i'r gogledd o Awstralia. Mae'r ardal bysgota'n perthyn i Indonesia, ond mae'r cyflenwad digonol o bysgod yn denu llongau pysgota anghyfreithlon, gan gynnwys nifer o Wlad Thai, sy'n edrych am diwna, ystifflog a macrell.

Yn ôl yr adroddiad gan y Sefydliad Cyfiawnder Amgylcheddol (EJF) sy'n dwyn y teitl "Pirates and Slaves", Gwlad Thai yw'r allforiwr bwyd môr mwyaf ond dau, gyda chyfanswm gwerth \$7 biliwn yn 2013, ond mae'n bosibl bod 39 y cant o'r \$1.6 biliwn o fwyd môr gwyllt sydd wedi'i ddal sy'n cyrraedd marchnad yr UDA o Wlad Thai wedi'i ddal yn anghyfreithlon.

Mae asiantau cyflogi sy'n brin o weithwyr wedi recriwtio plant a hyd yn oed bobl anabl, gan ddweud celwydd ynghylch y cyflogau ac

weithiau maent yn rhoi cyffuriau i ymfudwyr ac yn eu herwgipio. Mae'r asiantau yna'n "gwerthu" y caethweision, a hynny gan amlaf i gapteiniaid pysgota o Wlad Thai, am tua \$1,000. Yna, wrth gwrs, dywedir wrth y dynion bod yn rhaid iddynt dalu'r ddyled honno - dyled na fydd byth yn dod i ben.

Dyweddodd pysgotwyr sy'n gaethweision a gyfwelwyd gan AP fod y capteiniaid yn eu gorfodi i yfed dŵr budur ac i weithio shifftiau 20-22 awr heb ddiwrnodau rhydd. Roeddent yn dweud eu bod yn cael eu cicio neu eu chwipio gyda chynffonau morgathod os oeddent yn cwyno neu'n ceisio gorffwys. Dim ond ychydig iawn o dâl yr oeddent yn ei gael, neu ddim tâl o gwbl, wrth iddynt symud rhwydi trwm. Canfu gohebwy'r AP fod rhai caethweision a oedd wedi cwyno am eu hamgylchiadau wedi cael eu caethiwo mewn cewyll hyd yn oed, mewn ystordy yn Benjina. "Roeddwn wastad yn meddwl, os oedd mynedfa, mae'n rhaid bod allanfa", meddai Lin Maung, caethwas a gafodd ei adael yn Benjina. "Nawr rwy'n gwybod nad yw hynny'n wir."

Er ei bod yn anodd olrhain pysgod sy'n cael eu dal yn anghyfreithlon ar ôl iddynt gyrraedd dociau Gwlad Thai a chael eu rhoi mewn tryciau i fynd i bob cyfeiriad, cadarnhaodd AP fod rhywfaint ohonynt wedi cyrraedd cadwyni cyflenwi a oedd yn arwain yn uniongyrchol at gadwyni siopau bwyd a chyflenwyr bwyd yn America, yn ogystal â phacwyr tuniau tiwna a gweithgynhyrchwyr bwyd anifeiliaid anwes.

FFYNHONNELL 3: Roedd nifer o'r caethweision o Wlad Thai yn bobl Rohingya o Burma (a elwir hefyd ym Myanmar)



FFYNHONNELL 4: Graffeg o adroddiad newyddion ar-lein CNN, 15 Mai 2015



FFYNHONNELL 5: Cyfweiliad ar gyfer adroddiad Associated Press gyda Hlaing Min, pysgotwr ymfudol 32 oed o Burma, 21 Ebrill 2015

“Yn y bôn, rydym yn gaethweision — a chaethwasiaeth yw'r unig air y gallaf ei ddefnyddio — ond mae ein cyflwr yn waeth na chaethwasiaeth. Ar ran yr holl bysgotwyr yma, gofynnaf i'r Cyngreswyr bod yr UDA yn rhoi'r gorau i brynu'r holl bysgod o Wlad Thai....Gwnaethom ddal y pysgod hyn gyda'n gwaed a'n chwys, ond nid ydym yn cael dim budd o gwbl ohono.”

FFYNHONNELL 6: Detholiad o adroddiad newyddion ar-lein y BBC ynghylch caethwasiaeth yng Ngwlad Thai, 23 Ionawr 2014

Mae'r Cadfridog Chatchawal Suksomjit, dirprwy gapten yr heddlu, yn cerdded i lawr y rhesi, gan ysgwyd dwylo, nodio a chyfarch. Gyda'i sbectol dywyll, ei wallt sydd wedi'i frwsio'n daclus am yn ôl, a'i lifrai sgleiniog llwyd, mae'n llawn pwysigrwydd. Mae'n ein hebrwng ar rai o gychod yr heddlu sy'n ein disgwyl ac awn allan i gulfor Afon Malacca, ar hyd y ffin â Malaysia. Mae'r cadfridog yn bennaeth pwyllgor newydd a sefydlwyd i ymdrin â masnachu dynion i'r busnes pysgota – sefyllfa y mae'n ei disgrifio fel rhywbeth “budur, peryglus ac anodd”.



GETTY IMAGES NEWS PAULA BRONSTEIN

FFYNHONNELL 6

“Y ffocws heddiw yw dod o hyd i lafurwyr sy’n cael eu masnachu a’u gorfodi i weithio,” cyhoeddodd y cadfridog yn yr iaith Thai, cyn gorchymyn i’r criw, a oedd yn bennaf o Burma, i ddod i lawr i fwrdd y llong. Mae gan y criw dyllau yn eu crysau, neu ddim crysau o gwbl. Mae’r rhan fwyaf yn droednoeth. Rydym yn llithro o gwmpas ar y rhwydi, y cennau a’r perfeddion pysgod ar fwrdd y llong.

Pan siaradaf mewn Byrmaneg, maent yn siarad yn dawel, gan edrych yn nerfus ar y capten a meistr y criw. Mae un grŵp yn dweud nad oeddent yn gwybod eu bod yn dod ar gwch pan wnaethant adael Gwladwriaeth Rakhine yng ngorllewin Burma, neu Myanmar fel y’i gelwir hefyd. Mae arnynt ddyled o \$750 (£450) i’r brocer am ddod â nhw yma. Mae un dyn yn taflu cipolwg arnaf o dan ei fop o wallt sy’n llawn halen. “Rwyf wedi bod yma ers saith mis,” dywedodd. Nid yw wedi cael ei dalu eto.

Gyda fy Myrmaneg sylfaenol ac amharodrwydd y criw i siarad, mae’n anodd asesu’r sefyllfa, ond mae broceriaid, twyll a dyled yn aml yn mynd law yn llaw mewn perthynas â llafur wedi’i orfodi. Yn nodweddiadol, mae gweithiwr anghyfreithlon o Cambodia neu Burma yn cwrdd â brocer a chynigir gwaith

mewn ffatri iddo. Mae’n derbyn y swydd ac yn cael ei drosglwyddo o un brocer i un arall, sy’n mynd ag ef i borthladd, lle mae’n cael ei roi ar gwch pysgota. Yna dywedir wrth y dioddefwr bod arno lawer o arian i’r brocer.

Os bydd yn dianc, fel ymfudwr heb ddogfennau, bydd yr heddlu’n ei arestio a’i alltudio. Roedd un dyn o Cambodia y siaradais ag ef wedi’i ddal ar gwch am dair blynedd heb gyflog, tra roedd yn “talw ei ddyled”. Ni ddywedwyd wrtho faint o arian oedd arno.

Ni all y cadfridog a’i dîm siarad yn uniongyrchol â’r criw sy’n siarad Byrmaneg oherwydd nid ydynt wedi dod â chyfieithydd gyda nhw, felly nid yw’n bosibl cadarnhau a yw’r dynion wedi’u masnachu ai peidio. “Sut rydych chi’n gwybod nad oedd llafur wedi’i orfodi neu fasnachu yma?” gofynnaf. “O’r hyn a welsom, nid oedd ystafell o dan glo neu ystafell gadw,” meddai. “Ni welsom arwyddion o niwed ar eu cyrff nac ar eu hwynebau. Drwy edrych ar eu hwynebau a’u llygaid, nid oeddent yn edrych fel eu bod wedi’u gorfodi i weithio.”

FFYNHONNELL 7: Addaswyd o adroddiad newyddion ar-lein *The Guardian* ar gaethwasiaeth yn niwydiant pysgota Gwlad Thai, 20 Gorffennaf 2015

GOROESWR 1

“Dim ond 16 oed oeddwn i pan es am y tro cyntaf i wersylloedd y jyngl yn ne Gwlad Thai. Fe’m cadwyd mewn corlan gyda channoedd o gaethweision eraill. Roedd pobl yn cael eu harteithio, eu treisio a’u lladd hyd yn oed. Gwelais gyfanswm o 13 o bobl yn cael eu lladd. Roedd afon ger y gweryll a ddefnyddiwyd fel toiled ac roedd rhai pobl yn yfed y dŵr hwnnw. Roedd y rhai na allent dalu pridwerth yn cael eu harteithio gan y broceriaid. Yr ail waith y cefais fy nal, roeddwn ymysg grwpiau o ymfudwyr ifanc a orfodwyd i dyllu beddau enfawr ar gyfer cyrff y rhai a oedd wedi marw neu a laddwyd. Pan na allai fy nheulu dalu’r pridwerth, aethpwyd â fi mewn tryc o’r jyngl i Songkhla, yn ne Gwlad Thai. Yn y porthladd, rhoddwyd fi i gapten llong a chefais fy rhoi ar gwch pysgota â baner Gwlad Thai arni. Ni roddais droed ar dir eto am bedair blynedd.”

GOROESWR 2

Cawsom ein gwerthu i gwch pysgota gan frocer hyd yn oed ar ôl i ni gael 15,000 o baht Gwlad Thai gan ein perthnasau [er mwyn ein rhyddhau]. Cafodd y brocer 25,000 neu 30,000 baht [\$900] ar gyfer pob person. Roedd yn rhaid inni weithio am naw mis ar y cwch hwnnw. Cawsom ein curo a’n cicio ar ein talcenni gydag esgidiau a chawsom ein curo’n frwnt ar y cwch. Dim ond dyn o Wlad Thai wnaeth ein hamddiffyn, fel arall byddem wedi cael ein

lladd ar y môr. Cawsom ein gorfodi i weithio 22 awr y dydd. Pe byddem yn cysgu, byddem yn cael ein curo. Unwaith, cafodd fy ffrind ei guro mor ddrwg nes bod ei ddwy goes wedi’u torri ac ni allai gerdded. Bu farw 10 niwrnod yn ddiweddarach.”

BROGER CAETHWEISION

“Os nad ydynt yn edrych yn iach, nid ydynt fel arfer yn werth llawer o arian. Mae’n well gan berchnogion y cychod gael rhai iach a thal, oherwydd mae’r gwaith yn eithaf anodd. Nid yw’r Rohingya eisiau mynd ar y cychod ond mae’n rhaid iddynt. Rwyf wedi gwerthu mwy na 100 Rohingya i fynd ar y cychod pysgota. Mae perchnogion y cychod yn talu amdanynt – rwy’n cael tua 30,000 baht [\$900] y person.”

Yn sgil beirniadaeth ryngwladol gynyddol, rhoddodd llywodraeth Gwlad Thai derfyn amser o 10 niwrnod i gau’r gweryllloedd a oedd yn weddill a rhoi diwedd ar y masnachu. Mae bellach yn mynnu nad yw masnachwyr pobl yn gweithredu o fewn ei ffiniau. Wrth i’w gweryllloedd yn y jyngl gael eu cau, honnir bod cynghreiriau masnachu yn symud eu gweithrediadau i longau cargo aml-lawr enfawr oddi ar y tir sy’n gweithredu fel corlannau i gadw miloedd o bobl Rohingya.

FFYNHONNELL 8: Darn o adroddiad ar-lein gan bapur newydd *The Guardian* ar gaethwasiaeth yn y diwydiant pysgota yng Ngwlad Thai, 10 Mehefin 2014.

Mae Walmart, Tesco a Costco ymysg y gwerthwyr sy'n ymateb i'r hyn a ddatgelwyd ynghylch caethwasiaeth yn y cadwyni cyflenwi corgimychiaid

Mae'r cwmni bwyd enfawr CP Foods, yng Ngwlad Thai, yn dweud ei fod yn gwerthu corgimychiaid i nifer o'r prif archfarchnadoedd yn yr UDA, y DU a ledled Ewrop. Llwyddodd *The Guardian* i olrhain corgimychiaid CP Foods i'r pedwar prif fasnachwyr yn y byd - Walmart, Carrefour, Costco a Tesco - ac archfarchnadoedd mawr eraill, gan gynnwys Morrisons, Co-operative, Aldi ac Iceland.

Dywedodd pob un eu bod yn condemnio caethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer llafur. Ymddengys fod rhai ohonynt eisoes yn ymwybodol bod caethwasiaeth yn bodoli o fewn y sector pysgota yng Ngwlad Thai gan ddweud eu bod yn sefydlu rhaglenni i fynd i'r afael ag ef.

Dywedodd **Carrefour** ei fod yn cynnal archwiliadau cymdeithasol o'i holl gyflenwyr, gan gynnwys y ffatri CP sy'n cyflenwi corgimychiaid iddo. Cyfaddefodd nad oedd wedi cynnal gwiriadau hyd ddiwedd ei gadwyni cyflenwi cymhleth.

Dywedodd **Tesco**: "Ystyriwn fod caethwasiaeth yn gwbl annerbyniol. Rydym yn gweithio gyda CP Foods i sicrhau bod y gadwyn gyflenwi'n rhydd o gaethwasiaeth, ac rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a'r Fenter Fasnach Foesol i sicrhau newid ehangach ar draws y diwydiant pysgota yng Ngwlad Thai."

Dywedodd **Morrisons** y byddai'n trafod y mater gyda CP Foods ar fyrder. "Rydym yn pryderu ynghylch canfyddiadau'r ymchwiliad. Mae ein polisi masnachu moesol yn gwahardd llafur wedi'i orfodi gan gyflenwyr a'u cyflenwyr nhw."



FFYNHONNELL 9: Adroddiad *Associated Press* ar ymweliad i Indonesia gan swyddog llywodraeth yr UDA, Catherine A. Novelli, Mawrth 2014

“Rwy’n siŵr y bydd y cyhoedd yn pryderu bod y pysgod y maent yn eu bwyta wedi cael eu dal gan gaethwas,” meddai gohebydd o Indonesia. Ymatebodd Novelli yn gyflym. “Yn yr UDA, mae gennym gyfraith sy’n ei gwneud yn anghyfreithlon i fewnforio unrhyw gynnyrch a wnaed gan ddefnyddio llafur wedi’i orfodi neu lafur gan gaethweision, ac mae hynny’n cynnwys pysgod,” meddai. “I’r graddau y gallwn olrhain...o ble y daw’r pysgod, ni fyddwn yn caniatáu i bysgod ddod i mewn i UDA sydd wedi’u cynhyrchu gan ddefnyddio llafur wedi’i orfodi neu lafur gan gaethweision.”

FFYNHONNELL 10: Sylwadau gan Brif Weinidog Prydain David Cameron mewn datganiad swyddogol i'r wasg gan y Llywodraeth wrth gyhoeddi pasio'r Ddeddf *Caethwasiaeth Fodern*, 29 Gorffennaf 2015.

Nid oes lle i'r pla o gaethwasiaeth fodern yn y gymdeithas sydd ohoni ac rwy'n falch o bopeth y mae Prydain yn ei wneud i gael gwared ar hyn. Yn ddiweddarach yr wythnos hon, bydd mesurau newydd yn dod i rym yn y DU i roi mwy o ddiogelwch ac iawndal i ddioddefwyr ac i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol yn wynebu cosbau llymach. Ond mae llawer i'w wneud o hyd.

Mae'n warthus bod miloedd o blant o Fietnam yn y DU yn cael eu defnyddio i wneud elw gan gangiau troseddol a bod amcangyfrif bod dwsinau yn fwy o blant yn cyrraedd ein gwlad bob mis. Dyna pam mae mor bwysig ein bod yn gweithio gyda Fietnam i nodi beth arall y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater gyda'n gilydd. Rwy'n hynod falch fod Kevin Hyland, Comisiynydd Gwrthgaethwasiaeth Annibynnol

y DU, wedi cytuno i ymweld â Fietnam yn ddiweddarach eleni i weld pa gymorth a hyfforddiant ymarferol y gallwn ei ddarparu. A byddwn yn ariannu ail loches i ddioddefwyr masnachu sy'n blant a'r rhai sy'n dychwelyd i'w gwledydd eu hunain i sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ailintegreiddio.

O fis Hydref ymlaen, byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes sy'n gwneud elw o £36 miliwn neu fwy ddatgelu beth y maent yn ei wneud i sicrhau bod eu busnesau a'u cadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth. Mae'r mesur hwn yn un o'r cyntaf o'i fath yn y byd a bydd yn gam mawr ymlaen, drwy roi mwy o atebolrwydd ar fusnesau ynghylch cyflwr eu cadwyni cyflenwi.

